
Ffurflen Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Ymchwiliad ar ei Liwt ein Hun - Aseidiadau ac Adolygiadau Digartrefedd

Gweler Polisi a Gweithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am ganllawiau manwl ynghylch sut i lenwi'r ffurflen hon.

Adran 1: Diben a chwmpas y polisi

Teitl	Ymchwiliad ar ei Liwt ein Hun - Ymchwilio i'r broses asesu ac adolygu digartrefedd
Newydd neu yn bodoli	Newydd
Perchennog	Tîm Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun
Swyddog(ion) sy'n cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Beverley Allen Ania Rolewska
Beth yw nod y polisi?	<p>Mae'r ymyrraeth yn ymwneud â chynnal ymchwiliad ar ei liwt ei hun (OII) i arferion gweinyddol adolygu asesiadau digartrefedd yng Nghymru. Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ystyried unrhyw welliannau neu arfer da, yn y rhan hon o ddarparu gwasanaeth digartrefedd, sy'n deillio o bandemig COVID-19 gyda'r bwriad o wneud argymhellion os bydd yr ymchwiliad yn canfod camweinyddu neu fethiant gwasanaeth.</p> <p>Mae pedwar cam i'r ymyrraeth:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi ffocws arfaethedig yr ymchwiliad 2. Ymgynghoriad cyhoeddus ar y ffocws arfaethedig 3. Ymchwilio 4. Llunio argymhellion a rhannu canfyddiadau <p>Mae'r asesiad hwn yn ystyried y ddau gam cyntaf.</p> <p>Ym mis Mawrth 2020, ffocws arfaethedig yr ymchwiliad ar ei liwt ei hun oedd trefniadau gweinyddu'r broses asesu ac adolygu digartrefedd awdurdodau lleol yng Nghymru.</p> <p>Cynigiwyd y byddai'r ymchwiliad hwn yn ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • a yw awdurdodau lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol • a yw'r sawl sydd am herio canlyniad asesiad, neu benderfyniad bod dyletswydd yr Awdurdod Lleol wedi dod i ben, yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad o dan adran 85 Deddf Tai (Cymru) 2014.

- a yw adolygiadau a gynhelir yn unol ag adran 85 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cael eu gweinyddu'n briodol
- y rhesymau a roddir dros wrthdroi penderfyniadau ac, os yw'n briodol, a yw gwersi yn cael eu dysgu a'u rhannu o fewn yr Awdurdod Lleol hynny
- yn yr achosion lle nad yw penderfyniadau wedi eu gwrthdroi, a yw'r sawl sydd wedi'u heffeithio yn ymwybodol o'r rhwymedi sydd ar gael iddynt.

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr ymchwiliad arfaethedig hwn ym mis [Mawrth 2020](#). Fodd bynnag, o gofio effaith cyfyngiadau symud COVID-19, penderfynwyd gohirio'r ymchwiliad ar ei liwt ei hun a diwygio'r ymgynghoriad i gynnwys y newidiadau a wnaed gan Gyrrff Perthnasol mewn ymateb i COVID-19.

Ym mis Mai 2020, argymhellodd y Tîm Ymchwiliad ar ei Liwt ei Hun na fyddai'n briodol ail-gychwyn yr ymgynghoriad gwreiddiol yn ei fformat presennol ac y byddai'n well symud i sefyllfa 'gwylio ac aros' yn y tymor byr i sicrhau y byddai'r ymchwiliad ar ei liwt ei hun cyntaf yn gyfredol, yn adlewyrchu'r ymdrechion/llwyddiannau diweddar ac unrhyw faterion camweinyddu posibl sy'n deillio o sefyllfa Covid-19. Argymhellwyd ailgychwyn tua mis Hydref 2020.

Teimlwyd y byddai hwn hefyd yn amser cyfleus i gynnal Gweminar i ledaenu gwybodaeth am bwerau a chynigion OGCC, ynghyd ag annog ymgysylltiad â'r broses ymgynghori.

Ym mis Medi 2020, cafodd cynnig diwygiedig ei gwblhau a'i gymeradwyo. Lansiwyd ymgynghoriad ar y cynnig hwn yn nigwyddiad 2020 Sefydliad Tai Siartredig Cymru. Dewiswyd y platfform hwn fel ffordd o gyrraedd pobl sy'n gweithio yn y sector a phobl sy'n cynrychioli defnyddwyr y gwasanaeth i sicrhau cynulleidfa ehangach i annog ymwybyddiaeth a chyfranogiad yn yr ymarfer hwn. Cafwyd cymeradwyaeth i'r cynnig gan actor ac ymgyrchydd cymdeithasol enwog. Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori ar wefan OGCC a chyfathrebwyd manylion y rhain yn uniongyrchol i nifer o ymgynghoreion gan gynnwys rheoleiddwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, cyrff perthnasol mewn awdurdodaeth, sefydliadau trydydd sector a chynrychioliadol a phartion eraill â diddordeb.

Cynigiodd ymgynghoriad [mis Medi 2020](#) y dylai'r ymchwiliad ar ei liwt ei hun ystyried:

- A yw eich Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cyflawni eu dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'r Canllawiau i sicrhau bod asesiadau digartrefedd yn cael eu cynnal yn briodol
- A yw'r sawl a allai fod â hawl i geisio herio canlyniad asesiad, neu'r penderfyniad bod dyletswydd Awdurdod Lleol wedi dod i

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

	<p>ben, yn ymwybodol ac yn deall eu hawl i ofyn am adolygiad o dan adran 85 Deddf Tai (Cymru)</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw adolygiadau a gynhelir yn unol ag adran 85 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cael eu gweinyddu'n briodol • Y rhesymau a roddir dros wrthdroi penderfyniadau asesu ac, os yw'n briodol, a yw gwersi yn cael eu dysgu a'u rhannu o fewn yr Awdurdodau Lleol hynny neu'n ehangach, fel y bo'n briodol • Yn yr achosion lle nad yw penderfyniadau wedi eu gwrthdroi, a yw'r sawl sydd wedi'u heffeithio yn ymwybodol o'r rhwymedi sydd ar gael iddynt • Yr ystod o gamau a dulliau gweinyddol a gymerwyd gan Awdurdodau Lleol yn ystod y pandemig i asesu, mynd i'r afael ac adolygu anghenion pobl digartref neu'r sawl sy'n cyflwyno fel digartrefedd, i adnabod cyfleoedd ar gyfer gwelliannau tymor hwy neu ehangach
<p>Sut mae'r polisi'n gysylltiedig â meysydd gwaith eraill?</p>	<p>Mae'r ymyrraeth hon yn cysylltu â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Corfforaethol 2019-22 OGCC (Nod Strategol 2: Hyrwyddo Dysgu, Gweithio i Wella Gwasanaethau Cyhoeddus) • Cynllun Gweithredol 2020/21 OGCC (Cam Gweithredu 2.2) • Cynllun Cydraddoldeb 2019-22 OGCC (Amcan 2.3) <p>Mae hefyd yn berthnasol i waith ymchwilio cyffredinol OGCC.</p>
<p>Pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y polisi hwn?</p>	<p>Mae'r ymyrraeth hon yn effeithio ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • aelodau'r cyhoedd sydd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd a materion cysylltiedig • Cyrff Perthnasol - Awdurdodau Lleol • Rhanddeiliaid 3ydd parti - Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Elusennau a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol • OGCC (o ran ein llwyth gwaith, ffyrdd o weithio ac enw da)

Adran 2: Asesiad o berthnasedd a chymesuredd

Prif bwyntiau i'w cofio:

- i asesu perthnasedd mae'n rhaid i chi ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â'r holl nodweddion cydraddoldeb (gweler y Polisi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb am fanylion)

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwestiwn	Anghywir	Cywir	Sylwadau
A yw'r polisi yn ymwneud ag amcanion cydraddoldeb a chamau gweithredu OGCC?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Cynllun Cydraddoldeb 2019-22 OGCC (Amcan 2.3)
A yw'r polisi'n ymwneud â swyddogaethau y mae tystiolaeth, neu weithgareddau blaenorol, wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig i nodweddion penodol?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Ein rôl yw ymchwilio i gwynion o gamweinyddu a methiant gwasanaeth sy'n arwain at anghyfiawnder i aelodau'r cyhoedd. Fel rhan o hynny, rydym hefyd yn ymyrryd mewn achosion lle mae materion cydraddoldeb a hawliau dynol yn berthnasol. Er ein bod yn monitro cydraddoldeb ein hachwynwyr, nid ydym ar hyn o bryd yn tagio achosion lle mae nodweddion gwarchodedig penodol wedi'u cynnwys (cam gweithredu i'w ddatblygu yn ystod 2020/21). Fodd bynnag, mae ymchwilio ar ein liwt ein hunain yn ffordd newydd o weithio i ni, sy'n ein galluogi i ymchwilio'n rhagweithiol i fodolaeth camweinyddu systemig sy'n achosi anghyfiawnder, gan gynnwys ar gyfer grwpiau o achwynwyr na fyddai yn aml â mynediad at ein gwasanaeth neu grwpiau o achwynwyr a allai gael anhawster i gael mynediad at ein gwasanaeth.
A yw'r polisi'n ymwneud â maes lle gwyddys am anghydraddoldebau, neu botensial sylweddol ar gyfer lleihau anghydraddoldebau neu wella canlyniadau?	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Mae tystiolaeth dda o gysylltiadau rhwng digartrefedd ac oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth draws, ac anawsterau iechyd corfforol neu feddyliol. Gall y nodweddion hyn gael eu gwaethygu ymhellach gan fod y person yn ddigartref, oherwydd gallai gyfyngu ar ei allu i gael mynediad i'r cymorth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt ac i ymgysylltu â nhw. Mae tystiolaeth gynyddol hefyd ynglŷn â'r cysylltiad rhwng ethnigrwydd a chanlyniadau iechyd Covid-19, sy'n gwneud darparu tai digonol i bobl BAME yn fater arbennig o ddybryd.
A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r polisi hwn effeithio ar: <ul style="list-style-type: none"> • triniaeth gyfartal i bobl â nodweddion penodol • diwallu anghenion pobl â nodweddion cydraddoldeb (gan gynnwys drwy ddarparu addasiadau rhesymol) • cyfranogiad pobl â nodweddion cydraddoldeb 	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Mae'r ymyrraeth hon yn ymwneud â mynediad at wasanaethau gan bobl ddigartref. Bydd yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • ceisio diwallu anghenion pobl sy'n cael eu heffeithio gan ddigartrefedd. O fewn y grŵp hwn, mae'n ymddangos bod cynrychiolaeth uwch na'r cyfartaledd o fenywod a phobl sy'n anabl neu'n dioddef o gyflyrau iechyd. Mae tystiolaeth y gall pobl sy'n ystyried eu hunain yn LGBTQ+ fod angen y gwasanaeth yn fwy na phobl syth, a'u bod yn wynebu rhwystrau rhag mynediad. Mae'r grŵp hwn hefyd yn amlwg yn cael ei effeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol. • cynnwys sicrhau mewnwelediadau gan bobl ddigartref, naill ai drwy sefydliadau cynrychioliadol neu'n uniongyrchol.

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cwestiwn	An ghy wir	Cy wir	Sylwadau
<ul style="list-style-type: none"> cysylltiadau cymunedol rhwng gwahanol grwpiau cydraddoldeb 			
<p>A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r polisi hwn ddylanwadu anfantais oherwydd statws economaidd-gymdeithasol pobl?</p>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Diffinnir anfantais economaidd-gymdeithasol fel “byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, yn arwain at fwy o amddifadedd materol, gan gyfyngu ar y gallu i gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol”.</p> <p>Digartrefedd yw un o'r prif anfantais y gall pobl ei ddiodef oherwydd anghydraddoldeb mewn ffactorau economaidd-gymdeithasol, megis amddifadedd materol; mynediad i dai digonol; mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Ni all OGCC asesu rhinweddau penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdodaethau Lleol ond bydd yr ymchwiliad yn ystyried a chafodd y broses a ddilynwyd i wneud y penderfyniadau hynny ei gweithredu'n gywir, gan helpu i sicrhau bod pawb sydd â hawl i gael cymorth, yn ei dderbyn.</p>
<p>A oes tystiolaeth i awgrymu y gallai'r polisi hwn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu effeithio ar sut mae OGCC yn trin y Gymraeg?</p>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae'r ymyrraeth yn annhebygol o gael effeithiau uniongyrchol clir. Mae'r prif oblygiad a ragwelir ar gyfer y Gymraeg yn ymwneud â sicrhau bod yr holl ddogfennau ymgynghori a chyhoeddiadau sy'n ymwneud â'r ymyrraeth ar gael yn ddwyieithog ac y gellir cyflwyno unrhyw dystiolaeth yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.</p>

Os atebwch 'Cywir' i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, ewch ymlaen i [adran 3](#).

Os na fernir bod polisi yn berthnasol ar gyfer cynnal Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ewch ymlaen i [adran 5](#).

Adran 3: Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Prif bwyntiau i'w cofio:

- Mae'n rhaid i chi ystyried yn y cam hwn unrhyw angen i gasglu dystiolaeth bellach - gan gynnwys drwy ymgysylltu â grwpiau y gallai'r polisi effeithio arnynt;
- mae'n rhaid i chi gofnodi'r holl dystiolaeth sy'n llywio'r cam hwn yn [adran 4](#) o'r ffurflen hon.

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol			Dim yn berthnasol	Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd	Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol / mwyafu effaith gadarnhaol	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol		
	U	C	I	U	C	I				U	C	I	U	C	I
Agweddau cyffredinol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		<p>Amlygodd y cam sgrinio fod ffocws yr ymchwiliad yn debygol o gyffwrdd â sawl maes g o anghydraddoldebau presennol a bod ganddo botensial i wella canlyniadau ar gyfer grwpiau â nifer o nodweddion cydraddoldeb.</p> <p>Mae'r ddogfennaeth ymgynghori yn cydnabod y gall rhai grwpiau profi anghydraddoldebau a bod barn neu sylwadau'n cael eu croesawu gan bawb sy'n ddigartref, sydd wedi bod yn ddigartref neu sydd â phrofiad o'r Broses Asesu ac Adolygu.</p>	<p>Gellir cryfhau effaith gadarnhaol yr ymchwiliad os caiff ei gwmpas ei ehangu i roi ystyriaeth benodol i sut mae'r Awdurdodau Lleol yn ceisio diwallu anghenion grwpiau gwarchoddedig fel rhan o'r broses asesu ac adolygu – gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl anabl sy'n profi problemau iechyd meddwl; pobl sy'n ystyried eu hunain yn LGBTQ+; pobl ifanc; a lleiafrifoedd ethnig. Efallai y bydd angen ymgynghori â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mewn perthynas â'r ffocws hwn.</p> <p>Gweler nodiadau pellach isod am dargedu grwpiau penodol.</p>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oed	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad effeithio ar bob grŵp oedran yr un mor gadarnhaol.</p> <p>Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, fodd bynnag, o'r aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn 2018/19, roedd 22% o dan 25 oed, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod nifer y bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref/dan fygythiad o ddigartrefedd yn ymddangos yn cynyddu.</p> <p>I hwyluso mynediad ar gyfer gwahanol grwpiau oedran, mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi'r opsiwn ar gyfer cyflwyno ymatebion/sylwadau'n</p>	<p>Gallai ffocws mwy penodol ar brofiadau'r grŵp oedran hwn a'r ddarpariaeth ar ei gyfer fwyafu effaith gadarnhaol yr ymchwiliad.</p>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol			Dim yn berthnasol	Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd	Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol / mwyafu effaith gadarnhaol	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol		
	U	C	I	U	C	I				U	C	I	U	C	I
								electronig trwy ddolen survey monkey ac mae hefyd yn esbonio y gellid cyflwyno ymatebion post fel dewis arall. Caiff manylion cyswllt ffôn eu cynnwys i ddelio ag unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu geisiadau a all godi neu gael eu gwneud.							
Anabledd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Gellir disgwyl i ffocws arfaethedig yr ymchwiliad gael effaith gadarnhaol iawn ar bobl anabl. Yn 2016, cafodd 1/3 o achosion digartrefedd eu hachosi gan broblem iechyd. Awgrymodd astudiaeth yn 2014 fod cyfran y bobl ddigartref ag anableddau neu broblemau iechyd meddwl yn llawer uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol. O ystyried cynrychiolaeth y grŵp hwn ymhlith pobl sy'n ddigartref, mae'n debygol y bydd yr ymchwiliad yn cael effaith hynod gadarnhaol.</p> <p>Bydd yr holl ddefnydd cyfathrebu ynglŷn â'r ymgynghori ar gael mewn Hawdd ei Ddeall.</p>	<p>Awgrymodd yr asesiad y gellid cynyddu effaith gadarnhaol yr ymchwiliad drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> ffocws ychwanegol yr ymchwiliad ar hygyrchedd gwybodaeth a chymorth ar y broses asesu ac adolygu targedu'r grŵp hwn yn fwy penodol yn ystod y cam ymgynghori camau pellach i wella hygyrchedd yr ymgynghoriad 	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad effeithio ar bobl yr un mor gadarnhaol, waeth beth fo'u rhywedd.	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i fwyafu'r effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Ailbennu rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae ffocws arfaethedig yr ymchwiliad yn golygu y gallai gael mwy o effaith gadarnhaol ar bobl LGBTQ+. Deallir bod y grŵp hwn yn ei gyfanrwydd mewn perygl arbennig o ddigartrefedd oherwydd gwrthodiad gan y teulu ac	Gellid cynyddu effaith gadarnhaol yr ymchwiliad ar y grŵp hwn drwy dargedu'r grŵp hwn yn fwy penodol yn ystod y cam ymgynghori (e.e. drwy Stonewall).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol			Dim yn berthnasol	Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd	Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol / mwyafu effaith gadarnhaol	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol		
	U	C	I	U	C	I				U	C	I	U	C	I
								<p>maent yn wynebu rhwystrau o ran mynediad at wasanaethau cymorth.</p> <p>O ystyried pa mor agored i niwed yw'r grŵp hwn, gallai'r ymchwiliad arfaethedig gael mwy o effaith gadarnhaol ar bobl LGBTQ+ nag ar rai grwpiau gwarchoddedig eraill.</p>							
Priod a phartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oedd data clir i gysylltu ffocws yr ymchwiliad â statws priodasol. Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad effeithio ar bawb yr un mor gadarnhaol, waeth beth fo'u statws priodasol.	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i fwyafu'r effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Beichiogrwydd a mamolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad gael mwy o effaith gadarnhaol ar rieni a menywod beichiog. Roedd presenoldeb plant dibynnol neu fenyw feichiog yn cyfrif am 43 y cant o'r holl asesiadau Adran 75 yn ystod 2018-19.	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i fwyafu'r effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad gael mwy o effaith gadarnhaol ar bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol. Roedd y data ar aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn 2018/19 yn dangos gor-gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig yng nghyfran yr aelwydydd a dderbyniodd gynnig o lety sefydlog addas.</p> <p>Ceir hefyd gyfoeth o ymchwil sy'n cysylltu cefndir ethnig â chyfradd uwch o fregusrwydd i Covid-19 – ymhlith eraill, oherwydd y lefelau uwch o gyflyrau</p>	Gellid cynyddu effaith gadarnhaol yr ymchwiliad ar y grŵp hwn drwy dargedu'r grŵp hwn yn fwy penodol yn ystod y cam ymgynghori (e.e. drwy sefydliadau cynrychioliadol ac eiriolaeth).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol			Ddim yn berthnasol	Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd	Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol / mwyafu effaith gadarnhaol	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol		
	U	C	I	U	C	I				U	C	I	U	C	I
								iechyd presennol ymhlith pobl BAME, rhwystrau i gael mynediad at wybodaeth a chymorth iechyd oherwydd rhwystrau iaith ac allgáu digidol. O ystyried, yn ôl cyngor iechyd y cyhoedd, bod aros y tu fewn a chadw pellter cymdeithasol ymhlith y mesurau diogelwch allweddol i osgoi dod i gysylltiad â'r firws, daw darparu tai priodol yn angen arbennig o ddybryd i bobl BAME.							
Crefydd neu gred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oedd y data yn cyfeirio at anghydraddoldebau o ran mynediad at y broses asesu ac adolygu ar sail crefydd na phrofiad ohoni. Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth yn gadarnhaol, waeth beth fo'u crefydd.	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i fwyafu'r effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Cyfeiriadedd rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gallai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad gael mwy o effaith gadarnhaol ar bobl LGBTQ+. Deellir bod y grŵp hwn yn ei gyfanrwydd mewn perygl arbennig o ddigartrefedd oherwydd gwrthodiad gan y teulu ac maent yn wynebu rhwystrau o ran mynediad at wasanaethau cymorth. O ystyried pa mor agored i niwed yw'r grŵp hwn, gallai'r ymchwiliad arfaethedig gael mwy o effaith gadarnhaol ar bobl LGBTQ+.	Gellid cryfhau effaith gadarnhaol yr ymchwiliad ar y grŵp hwn trwy dargedu mwy penodol yn ystod y broses ymgynghori o sefydliadau sy'n gweithio gyda chymunedau LGBTQ+ (e.e. Stonewall).	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Statws economaidd-gymdeithasol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	O ystyried ei ffocws ar ddigartrefedd, mae'r ymchwiliad arfaethedig yn debygol	Ni nodwyd unrhyw gamau pellach i fwyafu'r effaith gadarnhaol ar y grŵp hwn.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwedd	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol			Dim yn berthnasol	Cyfiawnhad yn seiliedig ar y dystiolaeth a ystyriwyd	Camau gweithredu arfaethedig i liniaru effaith negyddol / mwyafu effaith gadarnhaol	Effaith negyddol			Effaith gadarnhaol				
	U	C	I	U	C	I				U	C	I	U	C	I		
								<p>o gael effaith gadarnhaol iawn ar grwpiau dan anfantais economaidd.</p> <p>Mae digartrefedd yn broblem ledled Cymru. Nod yr ymchwiliad hefyd yw teilwra'r sampl o'r Awdurdodau Lleol yr ymchwiliwyd iddynt i sicrhau eu bod yn gynrychioliadol o safbwynt daearyddol (Gogledd / De). Bydd hefyd yn dewis yr awdurdodau ar sail y data sydd ar gael ar aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref / ceisiadau am adolygiad a dderbyniwyd / a wrthdrowyd (gweler tystiolaeth Shelter, adran 4)</p> <p>Roedd y meini prawf hyn ar hyn o bryd yn awgrymu y gellid canolbwyntio ar Gaerdydd, Casnewydd, Wrecsam, Sir y Fflint, Gwynedd, Sir Gaerfyrddin neu Ben-y-bont ar Ogwr.</p>									
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Dylai ffocws arfaethedig yr ymchwiliad gael effaith yr un mor gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg a phobl heb unrhyw sgiliau Cymraeg. Nid oedd y dystiolaeth a adolygwyd yn cyfeirio at anghydraddoldebau o ran mynediad at y broses asesu ac adolygu ar sail sgiliau'r Gymraeg.</p> <p>Bydd yr holl ohebiaeth ymgynghori fel y cynlluniwyd yn wreiddiol ar gael yn ddwyieithog.</p>	Gellid cryfhau effaith gadarnhaol yr ymchwiliad drwy ystyried pa wybodaeth am y broses asesu ac adolygu yn Gymraeg sydd ar gael.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>		

Adran 4: Y gofrestr tystiolaeth ac ymgysylltu

Tystiolaeth bresennol wedi'i hystyried	
<p>Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb</p>	<p>Llywodraeth Cymru Digartrefedd yng Nghymru, 2018-19</p> <ul style="list-style-type: none"> O'r aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd yn 2018/19, roedd y mwyafrif (78%) o ymgeiswyr dros 25 oed, ond mewn 20% o achosion roedd ymgeiswyr rhwng 18 a 24 oed ac roedd 2% o'r ymgeiswyr yn 16 neu 17 oed. o aelwydydd yng Nghymru dan fygythiad o ddigartrefedd ac wedi gwneud cais am gymorth yn 2018/19, roedd 63% o ymgeiswyr yn fenywod. Fodd bynnag, ar gyfer yr aelwydydd hynny yr aseswyd eu bod yn ddigartref (o dan Adran 73), mewn 55 y cant o achosion roedd yr ymgeisydd yn wrywaidd. Roedd presenoldeb plant dibynnol neu fenyw feichiog yn cyfrif am 43 y cant o'r holl asesiadau Adran 75 yn ystod 2018-19. yn ystod 2018-19, roedd yr ymgeisydd o gefndir du neu leiafrif ethnig mewn 7 y cant o aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref a chafodd 6 y cant o aelwydydd eu lleddfau yn llwyddiannus o ddigartrefedd. Fodd bynnag, yn 2017-18 a 2018-19, roedd cyfran yr aelwydydd a dderbyniodd gynnig o lety addas a sefydlog o dan Adran 75 lle'r oedd yr ymgeiswyr o gefndir du neu leiafrif ethnig yn llawer uwch, sef 15 y cant. tra bu 46% o ymgeiswyr yn sengl, roedd 33% yn rhieni sengl ac 11% yn gyplau â phlant dibynnol <p>Gwerthusiad ôl-weithredu o Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014: Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2018)</p> <ul style="list-style-type: none"> Bu pobl sengl yn destun i ganlyniadau gwael o dan y ddeddfwriaeth flaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod canlyniadau i bobl sengl, o dan y Ddeddf newydd, yn dal yn wael gan eu bod yn aml yn parhau i fod heb ateb ar ôl pob cam. Ymddengys fod nifer y bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref/dan fygythiad o ddigartrefedd yn cynyddu. Effeithiodd iechyd meddwl gwael ar y mwyafrif o ddefnyddwyr gwasanaeth a gymerodd ran yn yr astudiaeth ni ellir atal digartrefedd pobl sy'n cysgu allan ac yn aml nid ydynt yn bodloni'r trothwy o ran bregusrwydd i gael eu hystyried fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol. Felly, nid ydynt yn derbyn dyletswydd ailgartrefu yng ngham olaf y ddeddfwriaeth <p>Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Tai a phobl anabl: Argyfwng cudd Cymru (2018)</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pobl anabl yn dueddol o wynebu arhosiad hirach i gael eu cartrefu mewn llety addas; caiff hyn ei gydnabod gan ddarparwyr tai <p>Causes of Homelessness and Rough Sleeping Rapid Evidence Assessment (Mawrth 2019)</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn 2017, mae tua hanner yr unigolion mewn llety digartrefedd â chymorth yn Lloegr rhwng 18-24 oed. Caiff y cysylltiad cryf rhwng oedran ifanc a digartrefedd ei egluro gan rai astudiaethau gan y profiad anghymesur o dlodi ymhlith pobl ifanc.

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- mae pobl ifanc sy'n ystyried eu hunain yn LGBT yn profi heriau mwy difrifol ac maent yn fwy tebygol o ganfod eu hunain yn ddigartref na'u cyfoedion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn LGBT e.e. oherwydd gwrthodiad rhieni
- mae tystiolaeth y DU ar achosion digartrefedd ymhlith pobl hŷn yn eithaf hen

Diffiniad Llywodraeth Cymru o anfantais economaidd-gymdeithasol (t. 10-11), [Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) (2019)

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, [England's most disadvantaged groups: Homeless people](#) (2016)

Homelessness Link [The unhealthy state of homelessness'](#) (2014)

- Canfuwyd bod gan 41% o bobl ddigartref broblemau iechyd corfforol hirdymor – o gymharu â 28% o'r boblogaeth gyffredinol
- Canfuwyd bod gan 45% o bobl ddigartref broblemau iechyd meddwl – o gymharu â 58% o'r boblogaeth gyffredinol
- Er i 90% o'r rhai a holwyd ddweud eu bod wedi cofrestru gyda meddyg teulu, mae nifer sylweddol o bobl ddigartref yn dweud nad ydynt yn cael cymorth gyda'u problemau iechyd

Mae papur polisi a grëwyd gan Age UK ym mis Gorffennaf 2019 '[Older homelessness](#)' yn cyfeirio at rybudd a gyhoeddwyd yn 2017 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol, sef "yn seiliedig ar dueddiadau presennol, disgwylir i raddfa ddigartrefedd yr henoed ddyblu erbyn 2025" yng Nghymru a Lloegr.

Mae Age UK hefyd yn nodi nad yw llawer o bobl hŷn, rhai ag anghenion lluosog, yn gwneud cais i'w hawdurdod lleol neu, os ydynt yn gwneud hyn, efallai na fyddant yn cael cymorth yn dibynnu ar ddehongliad awdurdodau lleol unigol o'r ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Mae'r papur yn nodi ymhellach, er ei bod hefyd yn wir y gellir dal i dderbyn pobl hŷn yn ddigartref os cydnabyddir bod ganddynt 'angen blaenoriaethol' am eu bod yn 'agored i niwed', caiff digartrefedd hŷn ei guddio yn aml mewn hosteli neu ddarpariaeth llety dros dro sy'n golygu nad yw'n ymddangos mewn ystadegau swyddogol.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol [Is Wales Fairer? The state of equality and human rights 2018](#), 2018

- Canfu ymchwiliad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2016 i archwilio profiadau pobl ddigartref fod traean o'r rhai a holwyd yn dweud bod eu digartrefedd wedi'i achosi, yn rhannol, gan broblem iechyd.
- Canfu ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2018 fod pobl anabl yn teimlo'n ddigalon ac yn rhwystredig oherwydd y system dai, gan adrodd am brinder difrifol o dai hygyrch ar draws pob deiliadaeth. Dim ond 30% o awdurdodau lleol a deimlai eu bod yn bodloni'r galw am gymorth tenantiaeth.
- Ar gyfer 6% o aelwydydd a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref, a 5% o aelwydydd a gafodd eu lleddfu rhag digartrefedd, roedd yr ymgeisydd o gefndir lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn ychydig yn uwch na'r amcangyfrifon swyddogol o'r boblogaeth lleiafrifoedd ethnig yng nghyfanswm Cymru (4%) (ONS 2012).

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, [Deaths of Homeless people in England and Wales: 2018](#)

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- Amcangyfrifodd data diweddar a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol mai 726 oedd nifer y marwolaethau ymhlith pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr yn 2018. O'r marwolaethau hyn, roedd dau o bob pump yn gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau, cynnydd yn yr achos marwolaeth hwn o 55% ers 2017. Yr oedran marwolaeth cymedrig ar gyfer dynion oedd 45 a 43 ar gyfer menywod. Yng Nghymru, mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 34 o bobl wedi marw.

Shelter Cymru, [Yn Gaeth ar y Stryd Deall cysgu allan yng Nghymru](#) (2018).
Canfu'r astudiaeth fod y grwpiau canlynol yn amlwg ymhlith ymatebwyr:

- pobl sydd wedi gadael y carchar
- pobl sydd wedi gadael gofal
- pobl ag anghenion cymorth cymhleth sydd heb eu diwallu
- cyplau

Soniodd y gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at yr astudiaeth am ganfyddiad bod proffil oedran pobl sy'n cysgu allan wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o bobl iau ar y strydoedd yng Nghymru.

Canfu'r astudiaeth fod llwybrau sy'n arwain rhywun i gysgu allan yn cynnwys ffactorau unigol, sef problemau ym mywyd personol y person, megis cyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu berthynas yn chwalu (31%); a ffactorau strwythurol, sy'n broblemau ehangach yn y system fel cost gynyddol tai, y trap tlodi, a thoriadau i fudd-daliadau lles.

Shelter Cymru [Homelessness among trans people in Wales](#) (2019)

- Deallir bod pobl LGBTQ+ yn gyffredinol mewn perygl arbennig o ddigartrefedd oherwydd gwrthodiad teuluol.
- roedd pobl draws yn aml yn amharod i gael mynediad at wasanaethau digartrefedd, gan gredu na fyddai ganddynt unrhyw beth i'w gynnig iddynt a fyddai'n diwallu eu hanghenion.
- y darlun cyffredinol oedd gwasanaethau sydd yn barod i helpu pobl draws, er lle yr oedd strwythurau'n gweithredu fel rhwystr, nid yw staff bob amser yn ymwybodol o'r ffordd orau o wneud hyn
- roedd bod yn ddigartref yn ei gwneud hi'n anoddach cael mynediad at gymorth ffurfiol ar gyfer trawsnewid yn gymdeithasol, yn gyfreithlon a/neu'n feddygol.

Mae 25% o bobl draws Prydain wedi profi digartrefedd yn ôl [LGBT in Britain - Trans Report](#) (2017).

[COVID-19 BAME Advisory Group - Potential impact of COVID-19 evidence paper](#) (Gorffennaf 2020)

Mae yna gyfoeth o ymchwil yn cysylltu cefndir ethnig gyda chyfradd uwch o achosion Covid-19. Mae ymchwil yn y cyswllt hwn, ymhlith eraill, yn tynnu sylw at y lefelau uwch o gyflyrau iechyd presennol ymhlith pobl BAME, megis diabetes, y ffaith eu bod yn dioddef o salwch meddwl ac yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at wybodaeth a chymorth iechyd oherwydd rhwystrau iaith ac yn awr allgáu digidol.

Tystiolaeth ychwanegol wedi'i chasglu

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dull o gasglu tystiolaeth	Ymgynghoriad wedi'i dargedu
Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd	<p>Cwblhaodd Archwilio Cymru ymchwiliad mewn perthynas â <u>Chysgu Allan yng Nghymru</u></p> <p>Cadarnhaodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod digartrefedd yn fater y maent yn ei ystyried fel rhan o'u gwaith monitro ac asesu nod cenedlaethol lechyd a Lles. Maent wedi cadarnhau y byddent yn agored iawn i weithio gydag OGCC ar brosiectau ar y cyd.</p> <p>Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod gwasanaethau eirioli mwy arbenigol fel Shelter Cymru ar gael i helpu pobl â phroblemau tai a digartrefedd, nid yw Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn derbyn y mathau hynny o gwynion yn gyffredinol, felly nid yw digartrefedd a materion cysylltiedig yn faes ffocws iddynt ar hyn o bryd.</p> <p>Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru fod digartrefedd a'r materion sy'n gysylltiedig â hyn yn nodwedd yn eu hadroddiad monitro 'Ar Goll ar ôl Gofal' yn 2013. Fel rhan o hynny, ystyriodd Comisiynydd Plant Cymru bryderon bod diffyg llety fforddiadwy priodol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.</p> <p>Roedd Shelter Cymru yn gallu rhannu gwybodaeth a oedd ganddynt mewn perthynas â'r broses adolygu digartrefedd. Dywedasant eu bod wedi gofyn yn 2019 am wybodaeth drwy geisiadau Rhyddid Gwybodaeth gan bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru am nifer y ceisiadau am adolygiad o dan adran 85 Deddf Tai (Cymru) 2014 y maent yn eu derbyn bob blwyddyn a'r rheswm pam. Gofynnodd Shelter Cymru hefyd faint o'r penderfyniadau a adolygwyd a gafodd eu gwrthdroi. Darparodd 19 awdurdod lleol y wybodaeth (methodd Sir Gaerfyrddin, RhCT ac Ynys Môn ymateb).</p> <p>Ar gyfer y cyfnod 2017 – 2018, Caerdydd a dderbyniodd y mwyafrif o geisiadau am adolygiad (185 o geisiadau am adolygiad – 50% wedi'u gwrthdroi), Wrecsam (50 cais am adolygiad – 14% wedi'u gwrthdroi), Sir y Fflint (49 cais am adolygiad – 37% wedi'u gwrthdroi), Pen-y-bont ar Ogwr (26%) ceisiadau am adolygiad – 35% wedi'u gwrthdroi) a Blaenau Gwent (25 cais am adolygiad – 32% wedi'u gwrthdroi). Derbyniodd yr awdurdodau lleol eraill 16 neu lai o geisiadau.</p> <p>Yr awdurdodau a gafodd y ganran uchaf o benderfyniadau adolygu wedi'u gwrthdroi oedd Sir Ddinbych (100% - 1 cais am adolygiad), Castell-nedd Port Talbot (75% - 8 cais am adolygiad), Caerdydd (fel uchod), Powys (50% - 4 cais am adolygiad) a Gwynedd (46% - 13 cais am adolygiad). Dangosodd ystadegau o flynyddoedd blaenorol fod y ffigurau hyn yn gyson mewn rhai awdurdodau lleol.</p> <p>Yn anecdotiaidd, mynegodd Shelter Cymru bryder ynghylch ansawdd y llythyrau penderfyniad a'r wybodaeth a roddwyd i ymgeiswyr digartrefedd ynghylch yr hawl i adolygiad.</p> <p>Eglurodd Shelter Cymru fod yn rhaid i'w cleientiaid fodloni prawf modd a theilyngdod i gael cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion apêl neu Adolygiad Barnwrol. Gall hyn fod yn heriol i rai pobl sy'n cysgu allan, yn ddiartref yn gudd neu'n cysgu ar soffâ</p> <p>Cynhyrchodd Shelter Cymru adroddiad yn dadansoddi rôl <u>Adolygiadau digartrefedd ac ymglyfreitha</u>. Amlygodd yr adroddiad fod mynediad cyfyngedig at gyngor a chyllid cyfreithiol yn golygu y gall llai o bobl gael eu cynorthwyo i arfer eu hawliau apelio a her gyfreithiol.</p>
Dyddiad cwblhau	30 Hydref 2020
Dull o gasglu	Ymgynghoriad cyhoeddus

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

tystiolaeth	
Cofnod o'r dystiolaeth a gasglwyd	<p>Cafwyd ymatebion gan 24 o wahanol ffynonellau, yn amrywio o Gomisiynwyr eraill, yr Archwilydd Cyffredinol, Awdurdodau Lleol a sefydliadau trydydd sector. Yn benodol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru. Esboniodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod pryder gwirioneddol a chynyddol ynghylch cyflwr pobl hŷn a ddaw yn ddigartref. Dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod y cyngor a'r cymorth sydd ar gael, yn benodol o ran sicrhau llety amgen, yn hollbwysig, ynghyd â chael dealltwriaeth glir o'r broses asesu, yr hawl i ofyn am adolygiad ynghyd â'u hawl i wneud cwyn bellach. Yn ogystal, dywedodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru fod mwy o bwyslais ar gydweithio yn rhoi cyfle i newid canfyddiadau a chyrraedd y rhai oedd yn teimlo na allant ymgysylltu â gwasanaethau.</p> <p>Mynegodd Comisiynydd Plant Cymru bryder bod nifer cynyddol ac anghymesur o bobl ifanc sydd mewn gofal yn wynebu'r profiad dinistriol o ddod yn ddigartref. Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru ei bod yn hollbwysig bod unrhyw asesiad o ddigartrefedd ar gyfer teuluoedd â phlant dibynnol yn ystyried hawliau unigryw plant a phobl ifanc fel y'u nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd yn ymwybodol nad yw llawer o bobl ifanc wedi gallu cael mynediad at gymorth yn y ffordd y byddent fel arfer yn ystod y pandemig.</p> <p>Mae'r ymatebion hyn yn amlygu'r anawsterau a wynebir gan bobl hŷn ac iau a chânt eu hystyried yn ystod yr ymchwiliad wrth ystyried yr effaith ar bob grŵp â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</p>
Dyddiad cwblhau	Lansiwyd yr ymgynghoriad yn wreiddiol ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, cafodd ei ohirio oherwydd yr achosion o Covid-19. Lansiwyd ymgynghoriad diwygiedig ar 23 Medi 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Hydref 2020.

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Adran 5: Adroddiad Canlyniadau

Y cam Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 70%;">Sgrinio</td> <td style="width: 30%; text-align: center;"><input checked="" type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Asesiad o'r Effaith</td> <td style="text-align: center;"><input checked="" type="checkbox"/></td> </tr> </table>	Sgrinio	<input checked="" type="checkbox"/>	Asesiad o'r Effaith	<input checked="" type="checkbox"/>			
Sgrinio	<input checked="" type="checkbox"/>							
Asesiad o'r Effaith	<input checked="" type="checkbox"/>							
Canlyniad y weithdrefn Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 70%;">Bwrw ymlaen â pholisi - dim newidiadau</td> <td style="width: 30%; text-align: center;"><input type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Gwneud newidiadau i bolisi</td> <td style="text-align: center;"><input checked="" type="checkbox"/></td> </tr> <tr> <td>Peidiwch â bwrw ymlaen â pholisi</td> <td style="text-align: center;"><input type="checkbox"/></td> </tr> </table>	Bwrw ymlaen â pholisi - dim newidiadau	<input type="checkbox"/>	Gwneud newidiadau i bolisi	<input checked="" type="checkbox"/>	Peidiwch â bwrw ymlaen â pholisi	<input type="checkbox"/>	
Bwrw ymlaen â pholisi - dim newidiadau	<input type="checkbox"/>							
Gwneud newidiadau i bolisi	<input checked="" type="checkbox"/>							
Peidiwch â bwrw ymlaen â pholisi	<input type="checkbox"/>							
Cynllun gweithredu (Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unig)								
Lle mae angen gweithredu i liniaru lefel yr effaith negyddol neu fwyafu effaith gadarnhaol, nodwch:								
Mater allweddol	Camau i'w cymryd	Swyddog cyfrifol	Dyddiad cwblhau					
Cynllun a phroses yr ymgynghoriad								
Gwella hygyrchedd y dogfennau ymgynghori	Dogfennau print bras o'r dogfennau ymgynghori i fod ar gael ar gais. Digwyddiad lansio i'w gynnal lle bydd manylion yr ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wedi'i gwblhau yn ystod y cam ymgynghori (Medi 2020)					
“	Oherwydd y cyfyngiadau parhaus i reoli pandemig Covid-19, nid oedd yn bosibl trefnu grwpiau ffocws i wella hygyrchedd yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, bydd opsiynau hygyrch ar gyfer ymgysylltu, megis grwpiau ffocws, yn cael eu trefnu fel rhan o'r broses ymchwilio i sicrhau ein bod yn gallu casglu barn a phrofiadau'r rhai yr effeithir arnynt lle bydd sefyllfa Covid-19 yn caniatáu hynny.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wedi'i gwblhau yn ystod y cam ymgynghori (Medi 2020)					
“	Wrth fyfyrrio, dylem fod wedi cynhyrchu fformat ar gyfer unrhyw un sy'n drwm eu clyw neu'n ddall. Ni chafodd y cam hwn ei ystyried mewn pryd ar gyfer ymgynghoriad Medi 2020. Fodd bynnag, bydd y Tîm Ar Ei Liwt Ei Hun yn dysgu o hynny ac yn sicrhau bod y fformatau hyn ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ar ei liwt eu hun nesaf, yn ogystal ag wrth gynhyrchu'r adroddiad ar yr ymchwiliad.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wrth gyhoeddi adroddiad yr ymchwiliad Wrth gynllunio'r ymchwiliad ar ei liwt ei hun nesaf					

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Gwella ymgysylltiad pobl ifanc a hŷn â'r ymgynghoriad	Ymgynghori'n uniongyrchol â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl iau (Llamau, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru) a phobl hŷn (Age Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru) a gofyn iddynt annog a chefnogi cyfranogiad lle bo modd.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wedi'i gwblhau yn ystod y cam ymgynghori (Medi 2020)
Gwella ymgysylltiad bobl ag anableddau â'r ymgynghoriad	Ymgynghori'n uniongyrchol â sefydliadau sy'n cynrychioli pobl hŷn a phobl ag anableddau corfforol a meddyliol (Anabledd Cymru ac Age Cymru) a gofyn iddynt annog a chefnogi cyfranogiad lle bo modd.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wedi'i gwblhau yn ystod y cam ymgynghori (Medi 2020)
Gwella ymgysylltiad y gymuned LGBTQ+ â'r ymgynghoriad	Manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus i'w rhannu gyda Stonewall. Gofyn i Stonewall ledaenu'r gair am ymgynghori trwy sianeli priodol.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wedi'i gwblhau yn ystod y cam ymgynghori (Medi 2020)
Gwella ymgysylltiad y gymuned BAME â'r ymgynghoriad	Manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus i'w rhannu'n benodol â sefydliadau cynrychioliadol y trydydd sector o'r cymunedau BAME (EYST, EMWWAA, African Community Centre, RCC a Chymdeithas Tsieiniaidd Yng Nghymru). Gofyn i'r sefydliadau hyn hefyd am ledaenu'r gair am ymgynghori trwy sianeli priodol.	Y Tîm ar ei Liwt ei Hun	Wedi'i gwblhau yn ystod y cam ymgynghori (Medi 2020)
Cwmpas yr ymchwiliad			
Gwella sylw'r ymchwiliad i faterion cydraddoldeb yn gyffredinol	Cynnwys yng nghwmpas yr ymchwiliad sut mae'r Awdurdodau Lleol yn ceisio diwallu anghenion grwpiau gwarchoddedig fel rhan o'r broses asesu ac adolygu – gan ganolbwyntio'n benodol ar bobl anabl sy'n profi problemau iechyd meddwl; pobl sy'n ystyried eu hunain yn LGBTQ+; pobl ifanc; a lleiafrifoedd ethnig.	I'w ystyried – a yw'n cyd-fynd â'n cylch gwaith ac a fyddai'n ymarferol?	Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gychwyn ym mis Mai 2020 ac yn cael ei ddiweddarau'n barhaus. Bydd yn cael ei adolygu ddiwedd Ionawr pan fydd ystadegau perthnasol yn dod i law. Diwygiwyd (13/04/2021) Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol ddarparu ystadegau ar nodweddion gwarchoddedig, sydd wedi'u darparu

Ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

			Cwestiynau i swyddogion Awdurdodau Lleol yn gofyn am rwystrau yn enwedig rhwystrau iaith
Gwella sylw'r ymchwiliad i ddarpariaeth o'r Gymraeg	Cynnwys yng nghwmpas yr ymchwiliad i ba raddau y mae Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod y broses asesu ac adolygu yn hygyrch yn Gymraeg	I'w ystyried – a yw'n cyd-fynd â'n cylch gwaith ac a fyddai'n ymarferol?	<p style="color: red;">Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gychwyn ym mis Mai 2020 ac yn cael ei ddiweddarau'n barhaus. Bydd yn cael ei adolygu ddiwedd Ionawr pan fydd ystadegau perthnasol yn dod i law.</p> <p>Diwygiwyd (13/04/2021)</p> <p>Gofynnwyd i Awdurdodau Lleol ddarparu gwybodaeth am Y Gymraeg sydd wedi'i darparu</p> <p>Cwestiynau i swyddogion Awdurdodau Lleol yn gofyn am rwystrau yn enwedig rhwystrau iaith.</p>
Monitro (Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unig).			
Amlinellwch y trefniadau monitro	Yn ystod cymeradwyo trefniadau ymgynghori Yn ystod cymeradwyo cynigion yr ymchwiliad terfynol		
Nodwch y swyddog cyfrifol	Claire Beynon (Tîm Gwella) Y Tîm Rheoli		
Anghenion Cyhoeddi (Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unig)			
A ystyriwyd bod yr effaith yn sylweddol (uchel)?	Do		
Wedi'i awdurdodi gan y Tîm Rheoli	<input checked="" type="checkbox"/>		
Dyddiad	Ebrill 2021		